YSTADEGAU SWYDDOGOL

Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2021 yng Nghymru:

TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau

27 Mai 2021

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegau swyddogol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer dros dro y cofrestriadau arholiadau yng Nghymru ar gyfer cyfres yr haf 2021. Mae'r datganiad yn cynnwys cofrestriadau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau mewn canolfannau yng Nghymru. Cyflwynwyd y data i ni gan gyrff dyfarnu erbyn 29 Ebrill cyn cyfres yr haf 2021.

Ffigwr 1: Cofrestriadau TGAU yr haf

Cynyddodd nifer y cofrestriadau TGAU 9.0% yn haf 2021 o'i gymharu â haf 2020.

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Ffigwr 2: Cofrestriadau TGAU yr haf fesul grŵp blwyddyn



Cynyddodd cofrestriadau TGAU Blwyddyn 11 o 7.1%. Cynyddodd cofrestriadau dysgwyr TGAU Blwyddyn 10 o 70.1%. Gostyngodd nifer cofrestriadau Blwyddyn 12 ac uwch.

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Ffigwr 3: Cofrestriadau UG a Safon Uwch yr Haf



Cynyddodd nifer y cofrestriadau UG o 2.9% yn haf 2021 o'i gymharu â haf 2020. Cynyddodd nifer y cofrestriadau Safon Uwch o 16.2%.

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Cysylltiadau Cyflym Cyflwyniad TGAU UG Safon Uwch Tystysgrif Her Sgiliau Cefndir
Ystadegydd Hannah Williams 01633 373292 ystadegau@cymwysteraucymru.org
Ymholiadau gan y cyfryngau Alan Morris 01633 373216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr cymwysterau, ac eithrio graddau, a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Ers haf 2018, rydym wedi casglu ac adrodd ar ddata o Gymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn haf 2018, cafodd data Cymru ei gasglu a'i gyhoeddi gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr. Cafodd y data yn y datganiad hwn ar gyfer haf 2017 ei gasglu a'i gyhoeddi gan Ofqual.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau'r haf 2021.

COVID-19

Yn dilyn canslo cyfres arholiadau haf 2020 oherwydd pandemig COVID-19, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd 2020 y dylid canslo cyfres arholiadau haf 2021. Mae trefniadau asesu amgen wedi'u rhoi ar waith a bydd dysgwyr sydd i fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn yn cael gradd a bennir gan y ganolfan.

Er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i drefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat, gohiriwyd y dyddiad cau terfynol ar gyfer ceisiadau yr haf hwn tan 26 Ebrill. O ganlyniad, gwnaethom newidiadau i'n casgliad data er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi'r holl gofrestriadau a wnaed erbyn y dyddiad cau. Mae'r ffigyrau'n cynrychioli nifer y cofrestriadau cymhwyster, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu erbyn 29 Mai 2020, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar 28 Mai 2020. O ganlyniad i'r newidiadau mewn trefniadau, dyddiad cau ar gyfer cofrestriadau a dyddiad adrodd data, efallai na fydd y ffigyrau cofrestru ar gyfer haf 2021 ar yr un sail yn union â ffigyrau y blynyddoedd blaenorol, ond maent yn parhau i fod yn gymharol gymaradwy.

Dylanwadau allanol

Mae nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar pam y gallai cofrestriadau ar gyfer grwpiau blwyddyn newid dros amser, er enghraifft newidiadau i:

- faint y boblogaeth;
- ymddygiad mynediad e.e. pan fydd dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer eu harholiadau TGAU;
- nifer y cymwysterau o bob math sy'n cael eu sefyll ar gyfartaledd, er enghraifft, nifer y lefelau UG sy'n cael eu hastudio;
- y mathau o gymwysterau sy'n cael eu sefyll ôl-16.

Newidiadau yn y boblogaeth

Yr ystadegau swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar boblogaeth Cymru 16, 17 neu 18 oed yw'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn dangos cynnydd o 0.5% yn y boblogaeth o bobl ifanc 18 oed yn 2021 o'i gymharu â 2020, cynnydd o 1.8% yn nifer y bobl ifanc 17 oed a chynnydd o 3.4% ar gyfer y bobl ifanc 16 oed. Gallai'r newidiadau hyn olygu dylanwad cynyddol gan y boblogaeth ar gofrestriadau TGAU, UG a Safon Uwch.

Tabl 1: Newidiadau i Boblogaeth Cymru

Blwyddyn	Pobl ifanc 16 oed	Pobl ifanc 17 oed	Pobl ifanc 18 oed
2021	34,771	33,755	33,535
2020	33,625	33,149	33,355
Newid (2021 - 2020)	1,146	606	180
Canran y newid (2021 - 2020) / 2020)	3.4%	1.8%	0.5%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gan fod y datganiad hwn yn seiliedig ar gyfrifiadau cofrestriadau ar lefel cymhwyster, nid yw'n bosibl i ni fesur effaith ffactorau o'r fath. Rydym wedi gwneud sylwadau ar ffactorau sy'n dylanwadu ar newidiadau mewn cofnodion dim ond lle rydym yn hyderus bod y ffactorau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â newid.

Diwygio Cymwysterau

Yn dilyn adolygu cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed gan Lywodraeth Cymru yn 2012, cyflwynwyd cyfres newydd o gymwysterau diwygiedig ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru. Mae'r cymwysterau diwygiedig hyn wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cymwysterau diwygiedig i'w haddysgu am y tro cyntaf mewn tri cham. Addysgwyd cymwysterau Cam 1 o fis Medi 2015, Cam 2 o fis Medi 2016 a Cham 3 o fis Medi 2017. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y newidiadau hyn, a rhestr y pynciau a gynhwysir ym mhob cam ar ein gwefan.

Yn y datganiad hwn mae'r termau "TGAU cymeradwy", "lefelau UG cymeradwy", a "Safon Uwch gymeradwy", yn cyfeirio at y cymwysterau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru, heblaw y nodir yn wahanol.

Mae rhagor o wybodaeth am ddiwygio cymwysterau wedi'i chynnwys yn adran Nodiadau Cefndir y datganiad hwn.

Ystadegau

Cofrestriadau TGAU

Ffigwr 4: Cyfanswm cofrestriadau TGAU fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Gwnaed 335,780 o gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2021. Mae hyn wedi cynyddu 9.0% o'i gymharu â nifer y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2020.
- Roedd y cynnydd yng nghyfanswm y cofrestriadau TGAU yr haf hwn o'i gymharu â'r haf blaenorol yn ganlyniad i gynnydd yng nghofrestriadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- Mae Blwyddyn 11 yn cynrychioli blwyddyn olaf disgybl mewn addysg orfodol. Y grŵp eleni yw'r rhai mwyaf tebygol o ymgeisio am gymwysterau TGAU yn yr haf, gan gyfrif am 87.4% o gyfanswm y cofrestriadau TGAU yr haf hwn. Cynyddodd nifer y cofrestriadau Blwyddyn 11 o 7.1% yr haf hwn o'i gymharu â haf 2020.
- Cafwyd 27,750 o gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 10 yn haf 2021. Mae hyn yn gynnydd o 70.1% o'i gymharu â'r haf diwethaf, pan oedd 16,315.
- Roedd 8.4% o'r holl gofrestriadau TGAU yr haf hwn ym mlwyddyn 10 neu'n is, i fyny o 5.5% yr haf diwethaf.
- Gostyngodd nifer y cofrestriadau ym Mlwyddyn 12 neu uwch yr haf hwn, sef cyfanswm o 4.2% o'r cofrestriadau TGAU.

Cymwysterau TGAU cymeradwy

Roedd 96.1% o gyfanswm cofrestriadau TGAU haf 2021 ar gyfer cymwysterau TGAU cymeradwy. Roedd gweddill y cofrestriadau TGAU yr haf hwn ar gyfer TGAU TGCh etifeddol, neu gymwysterau a ddiwygiadwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr (gweler yr adran ar ddiwygio cymwysterau yn y Nodiadau Cefndir).

Diwygio Cam 1

Roedd cofrestriadau TGAU cam 1 cymeradwy yn cyfrif am 46.6% o gyfanswm y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2021. 2017 oedd y gyfres gyntaf o arholiadau haf lle dyfarnwyd y cymwysterau TGAU hyn.

Ffigwr 2: Cofrestriadau TGAU cam 1 cymeradwy fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 2 : Cofrestriadau TGAU cam 1 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc	2021	2020	Canran y newid
Saesneg Iaith	38,190	37,665	1.4% ↑
Llenyddiaeth Saesneg	34,770	28,185	23.4% ↑
Mathemateg	38,405	34,960	9.9% ↑
Mathemateg - Rhifedd	35,010	24,645	42.0% ↑
Cymraeg Iaith	5,925	5,430	9.2% ↑
Llenyddiaeth Gymraeg	4,195	3,735	12.4% ↑
Cyfanswm	**156,500**	**134,615**	**16.3%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff Dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cynyddodd cyfanswm y cofrestriadau TGAU cam 1 cymeradwy o 16.3% i 156,500 o gofrestriadau ar gyfer haf 2021. Gwelodd pob TGAU cam 1 gynnydd yn nifer y cofrestriadau, gyda'r cynnydd mwyaf mewn Mathemateg - Rhifedd.

Cynyddodd nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 ac 11 ym mhob pwnc cam 1. Gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill yn y mwyafrif o bynciau. Gall y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau o Flwyddyn 12 ac uwch fod oherwydd canlyniadau uwch na'r arfer yn haf 2020, gan olygu bod llai o ddysgwyr yn ail-sefyll yn addysg ôl-16. Mae newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cofrestriadau Blwyddyn 11 yn debygol o gael eu heffeithio gan gynnydd yn y boblogaeth (gweler dylanwadau allanol). Mae'n bosibl bod patrymau cofrestru ar gyfer rhai o'r cymwysterau hyn hefyd wedi cael eu heffeithio gan newidiadau mewn cofrestriadau ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd.

Mae dadansoddiad pellach ar gyfer Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad pwnc TGAU niferoedd mynediad uwch isod.

Diwygio Cam 2

Tabl 3: TGAU cam 2 cymeradwy fesul pwnc(1)

Pwnc	2021	**2020**	**Canran y newid**
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	5,635	3,625	55.4% ↑
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl)	2,165	1,745	24.1% ↑
Celf a Dylunio	9,280	9,045	2.6% ↑
Bioleg	8,335	7,945	4.9% ↑
Cemeg	8,055	7,700	4.6% ↑
Drama	2,615	2,325	12.5% ↑
Bwyd a Maetheg	2,135	1,970	8.4% ↑
Ffrangeg	2,720	3,040	-10.5% ↓
Daearyddiaeth	7,600	7,435	2.2% ↑
Almaeneg	485	565	-14% ↓
Cerddoriaeth	2,380	2,210	7.6% ↑
Addysg Gorfforol	6,925	6,520	6.2% ↑
Ffiseg	7,965	7,530	5.8% ↑
Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	36,350	36,760	-1.1% ↓
Sbaeneg	1,565	1,135	37.7% ↑
Cyfanswm	**104,205**	**99,540**	**4.7%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff Dyfarni - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru;
(1) Cofrestriadau Gwyddoniaeth: Cyfrifir cymwysterau Dyfarniad Dwbl fel dau gofnod yn y datganiad hwn. Y rheswm dros hyn yw bod maint y cymwysterau diwygiedig yn cyfateb i ddau TGAU. Mae'r dull hefyd yn gyson â sut mae data mynediad ar gyfer y cymwysterau TGAU diwygiedig o fewn y grŵp pwnc 'Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl yn cael ei adrodd mewn man arall.

Mae Tabl 3 yn dangos cofnodion ar gyfer TGAU cam 2 cymeradwy yn haf 2021, sef y pedwerydd haf i ddysgwyr gael y cyfle i ennill gradd yn y cymwysterau hyn. Cafwyd 104,205 o gofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn haf 2021, cynnydd o 4.7%. Roedd y cofrestriadau hyn yn cyfrif am 31.0% o'r holl gofrestriadau TGAU yr haf hwn. Y mwyafrif (98.3%) gan ddysgwyr Blwyddyn 11.

Cynyddodd nifer y cofrestriadau cyffredinol ar gyfer y gyfres o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth o 4.9% o'i gymharu â'r haf diwethaf. Gostyngodd nifer y cofrestriadau Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) ychydig, ond cynyddodd nifer y cofrestriadau ar gyfer pob TGAU gwyddoniaeth arall. Arhosodd cofrestriadau ieithoedd tramor modern yn sefydlog yn gyffredinol, gyda gostyngiadau yn nifer y cofrestriadau Ffrangeg ac Almaeneg yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd o 37.7% mewn cofrestriadau Sbaeneg.

Diwygio Cam 3

Tabl 4: TGAU cam 3 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc	2021	2020	Canran y newid	
Busnes	3,270	3,240	1.0%	↑
Cyfrifiadureg	2,270	2,015	12.6%	↑
Dylunio a Thechnoleg	5,365	5,225	2.6%	↑
Hanes	9,165	9,520	-3.7%	↓
Astudiaethau'r Cyfryngau	1,600	1,470	8.8%	↑
Addysg Gorfforol (Cwrs Byr)	180	370	-51.5%	↓
Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Byr)	4,490	5,010	-10.3%	↓
Astudiaethau Crefyddol	10,205	9,805	4.1%	↑
Cymraeg Ail Iaith	21,855	21,185	3.2%	↑
Cyfanswm	**58,395**	**57,835**	**1.0%**	↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cymeradwywyd 58,395 o gofrestriadau cam 3 yn haf 2021, cynnydd bach o 1.0% o'i gymharu â'r haf diwethaf. Roedd y cofrestriadau hyn yn cyfrif am 17.4% o'r holl gofrestriadau TGAU yr haf hwn. Mae nifer y cofrestriadau Cymraeg Ail Iaith yn parhau i gynyddu, i gynnwys 37.4% o holl gofrestriadau cam 3. Astudiaethau Crefyddol a Hanes oedd yr ail a'r trydydd uchaf a gofrestrwyd ar eu cyfer ar gyfer cam 3, er gwaethaf gostyngiad o 3.7% mewn cofrestriadau Hanes. Yn gyffredinol, arhosodd Astudiaethau Crefyddol yn sefydlog, gyda gostyngiad mewn cofrestriadau cwrs byr yn cael ei

wrthbwyso gan gynnydd mewn cofrestriadau cwrs llawn. Cyfrifiadureg welodd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau, sef 12.6%.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

Yn dilyn ein hadolygiad o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dyfernir cymwysterau TGAU cymeradwy newydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant am y tro cyntaf yn haf 2021. Cafwyd 3,310 o gofrestriadau ar gyfer TGAU y Dyfarniad Sengl a 410 o gofrestriadau ar gyfer y Dyfarniad Dwbl.

Cyfanswm cofrestriadau TGAU yr haf fesul pwnc

Mae Ffigwr 6 yn cymharu cyfanswm cofrestriadau TGAU yr haf ar gyfer 2021 a 2020 fesul pwnc. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys TGAU etifeddol, cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru a TGAU diwygiedig yn Lloegr. Mae pynciau heb unrhyw gofrestriad yn y ddwy flynedd wedi'u heithrio.

Ffigwr 6: Cyfanswm cofrestriadau TGAU Haf 2020 wedi'u dadansoddi fesul pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Gwelodd 28 o bynciau cofrestriad uwch yn haf 2020, tra bod 10 pwnc wedi gweld gostyngiad yn nifer y cofrestriadau.

Y 5 uchaf o gofrestriadau pwnc TGAU fesul grŵp blwyddyn

Fel y gwelir yn ffigwr 6, y pum pwnc TGAU uchaf o ran cofrestriadau yn haf 2021 oedd Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl, Mathemateg, Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, a Mathemateg: Rhifedd. Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach ar y pynciau hyn. Mae'r ffigurau yn yr adran hon yn cynnwys pob TGAU o fewn y pwnc, nid dim ond y TGAU cymeradwy.

Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl

Cofrestriadau i Wyddoniaeth: Caiff cymwysterau Dyfarniad Dwbl eu cyfrif fel dau gofrestriad yn y datganiad hwn gan fod maint y cymhwyster yn cyfateb i ddau TGAU. Mae hyn yn gyson â sut y mae data ar gyfer y 'Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl' yn cael ei adrodd mewn mannau eraill.

Ffigwr 7: Cofrestriadau TGAU Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Tabl 5: Cofrestriadau TGAU Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl fesul grŵp blwyddyn

Blwyddyn	Blwyddyn 9 neu'n is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2021	0	65	41,905	225	20	42,215
2020	*	10	40,370	240	40	40,660
2019	0	*	42,755	320	20	43,100
2018	0	10	42,510	220	5	42,740

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cafwyd 42,215 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth: yn haf 2020, 3.8% yn fwy na'r haf blaenorol. Cofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 11 sy'n parhau i ffurfio'r mwyafrif (99.3%) o gofrestriadau ar gyfer Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl.

TGAU Saesneg

Ffigwr 8: Cofrestriadau TGAU Saesneg fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 6: Cofrestriadau Saesneg fesul grŵp blwyddyn

Blwyddyn	Blwyddyn 9 neu'n is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2021	*	1,625	31,630	2,270	3,130	38,660
2020	10	855	30,030	3,600	3,635	38,125
2019	10	270	29,530	2,985	3,835	36,630
2018	5	805	20,610	2,730	3,735	27,890
2017	10	21,090	31,115	2,945	3,885	59,045

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Cafwyd 38,660 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg yn haf 2021, cynnydd o 1.4%. Cafwyd bron i ddwywaith cymaint o gofrestriadau Blwyddyn 10 yr haf hwn o'i gymharu â'r haf diwethaf. Mae cofrestriadau Blwyddyn 11 yn cynnwys 81.8% o gyfanswm y cofrestriadau eleni o'i gymharu â 78.8% y llynedd. Gwrthbwysir y cynnydd yng nghofrestriadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 gan ostyngiadau yn y grwpiau blwyddyn eraill. Mae cofrestriadau Blwyddyn 12 wedi gostwng 36.9%.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Ffigwr 9: Cofrestriadau TGAU Llenyddiaeth Saesneg fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 7: Cofrestriadau Llenyddiaeth Saesneg fesul grŵp blwyddyn

Blwyddyn	Blwyddyn 9 neu'n is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2021	35	16,095	18,930	115	20	35,200
2020	*	10,090	18,360	100	25	28,575
2019	*	9,360	19,860	125	10	29,355
2018	*	5,195	18,805	105	20	24,125
2017	*	2,055	14,640	75	10	16,780

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cyfanswm nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg oedd 35,200, cynnydd o 23.2%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd o 59.6% yn nifer y cofrestriadau ym Mlwyddyn 10, sef 45.7% o'r cofrestriadau yr haf hwn. Cynyddodd nifer cofrestriadau Blwyddyn 11 o 3.1%, ond mae'r nifer helaeth a gofrestrwyd ym Mlwyddyn 10 yn golygu bod cyfran Blwyddyn 11 o gyfanswm y cofrestriadau wedi gostwng o 64.2% i 53.8%.

TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd

TGAU Mathemateg oedd â'r ail nifer fwyaf o gofrestriadau TGAU dros dro yn haf 2020, gyda chyfanswm o 35,360 o gofrestriadau. Mathemateg: Rhifedd oedd â'r pumed nifer uchaf o gofrestriadau dros dro gyda 24,645 o gofrestriadau.

Ffigwr 10: Cofrestriadau TGAU Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 8: Cofrestriadau TGAU Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd fesul grŵp blwyddyn

Pwnc	Blwyddyn	Blwyddyn 9 neu'n is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
Mathemateg							
	2021	*	1,505	30,950	2,370	3,860	38,695
	2020	20	930	27,460	3,155	3,805	35,360
	2019	25	710	27,725	2,770	3,770	34,995
	2018	10	610	23,495	2,770	3,085	29,970
	2017	20	10,415	25,940	2,240	3,610	42,230
Mathemateg - Rhifedd							
	2021	*	5,590	28,560	365	490	35,010
	2020	15	2,005	21,500	525	600	24,645
	2019	*	1,940	21,285	645	820	24,695
	2018	*	1,765	19,565	715	950	23,000
	2017	10	11,135	**20,455**	520	1,050	33,170

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Cynyddodd cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg yn haf 2021 o 9.4% o'i gymharu â haf 2020. Gostyngodd ceisiadau gan ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 neu is a Blwyddyn 12 ychydig, ond cynyddodd nifer y cofrestriadau o bob grŵp blwyddyn arall. Cynyddodd nifer y disgyblion TGAU Mathemateg: Rhifedd o 42.0% o ganlyniad i gynnydd yng nghofrestriadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Roedd cryn dipyn yn llai o gofrestriadau Mathemateg: Rhifedd yn Nhachwedd 2020 o'i gymharu â chyfresi blaenorol mis Tachwedd, a allai egluro'n rhannol y cynnydd mawr yng nghofrestriadau haf 2021.

Yn haf 2021, roedd 80.0% o gofrestriadau TGAU Mathemateg ac 81.6% o gofrestriadau TGAU Mathemateg: Rhifedd yn ddysgwyr Blwyddyn 11. Mae hyn yn cymharu â 77.6% ac 87.2% yn haf 2020 yn y drefn honno. Mae cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cynnwys 3.9% ac 16.0% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd yn y drefn honno yn haf 2020. Mae hyn wedi newid o 2.7% ac 8.2% yn y drefn honno yn haf 2019. Roedd 16.1% o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg yn Flwyddyn 12 neu'n uwch, a 2.4% ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd. Mae hyn yn cymharu â 19.7% a 4.6% yn haf 2019. Mae gan Fathemateg gyfran uwch o gofrestriadau ym Mlwyddyn 12 neu uwch na Mathemateg: Rhifedd. Mae hyn wedi digwydd ers 2017.

Cofrestriadau Safon UG

Ffigwr 12: Cyfanswm cofrestriadau UG fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Cafwyd 43,670 o gofrestriadau safon UG yn haf 2021 yng Nghymru, 2.9% yn fwy nag yn haf 2020.
- Roedd Haf 2015 i haf 2019 yn gyfnod o ostyngiad blynyddol cyson yn nifer y cofrestriadau Safon UG yng Nghymru, i lawr o 57,030 o gofrestriadau yn haf 2015, ond mae'r duedd hon wedi bod yn gwrthdroi dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Cafwyd 40,425 o gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 12, sy'n cyfrif am 92.6% o'r holl gofrestriadau. Mae hon yn gyfran lawer mwy na blynyddoedd blaenorol.
- Cafwyd gostyngiad o 72.8% yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 13. Gall hyn fod o ganlyniad i ganlyniadau uwch na'r arfer yn haf 2020, gan arwain at lai o ddysgwyr yn ail-sefyll yn 2021.
- Mae sawl ffactor a all chwarae rhan mewn newidiadau i gofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn (gweler dylanwadau allanol).

Lefel UG wedi'i diwygio

Roedd 98.3% o gyfanswm cofrestriadau UG haf 2021 ar gyfer cymwysterau cymeradwy. Darperir y cymwysterau hyn gan CBAC, a dyma'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig lefelau UG cymeradwy. Nid yw'r adran hon yn cynnwys cofrestriadau ar gyfer lefelau UG a ddatblygwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau).

Diwygio Cam 1

Mae lefelau UG cam 1 cymeradwy yn cyfrif am 61.7% o gyfanswm y cofrestriadau Safon UG ar gyfer haf 2021.
Mae Tabl 9 yn dangos y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer lefelau UG cam 1 cymeradwy rhwng haf 2021 a haf 2020. Cynyddodd cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn 4.5% o 25,800 o gofrestriadau yn haf 2020 i 26,960 o gofrestriadau yn haf 2021.

Tabl 9: Cofnodion safon UG cam 1 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc	2021	2020	Canran y newid
Celf a Dylunio	2,280	2,100	8.7% ↑
Bioleg	4,140	4,005	3.4% ↑
Busnes	1,770	1,705	3.7% ↑
Cemeg	3,285	3,425	-4.0% ↓
Cyfrifiadureg	575	585	-1.9% ↓
Economeg	710	680	4.4% ↑
Saesneg Iaith	345	390	-11.1% ↓
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	915	925	-1.4% ↓
Llenyddiaeth Saesneg	1,860	1,970	-5.7% ↓
Hanes	2,705	2,165	25.2% ↑
Ffiseg	2,545	2,455	3.7% ↑
Seicoleg	3,520	3,270	7.7% ↑
Cymdeithaseg	2,030	1,910	6.2% ↑
Cymraeg Iaith	280	220	26.9% ↑
Cyfanswm	**26,960**	**25,800**	**4.5%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cymraeg Iaith oedd â'r cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau, sef 26.9%, er mai dim ond newid o tua 60 o gofrestriadau yw hyn. Roedd yr ail gynnydd mwyaf o 25.2% mewn Hanes. Gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer pob un o'r tair lefel Saesneg UG yn haf 2021, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y cofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 13.

Diwygio Cam 2

Mae Tabl 10 yn dangos y newid yn nifer y cofrestriadau ar gyfer lefelau UG cam 2 cymeradwy rhwng haf 2021 a haf 2020. Roedd y ceisiadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn cyfrif am 13.5% o gyfanswm y cofrestriadau Safon UG yn haf 2021.

Tabl 10: Cofrestriadau safon UG cam 2 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc	2021	2020	Canran y newid
Drama a Theatr	695	645	7.9% ↑
Ffrangeg	320	360	-11.6% ↓
Daearyddiaeth	1,640	1,555	5.4% ↑
Almaeneg	80	90	-14.3% ↓
Cerddoriaeth	370	390	-4.1% ↓
Addysg Gorfforol	965	855	12.7% ↑
Astudiaethau Crefyddol	1,240	1,170	5.9% ↑
Sbaeneg	185	235	-20.1% ↓
Cymraeg Ail Iaith	405	470	-13.6% ↓
Cyfanswm	**5,905**	**5,775**	**2.3%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cynyddodd nifer y cofrestriadau 2.3% o 5,775 yn haf 2020 i 5,905 o gofrestriadau yn haf 2021. Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn Addysg Gorfforol, a gynyddodd 12.7%. Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer yr holl gymwysterau Ieithoedd Tramor Modern, yn ogystal â Chymraeg Ail Iaith a Cherddoriaeth.

Diwygio Cam 3

Roedd lefelau UG cam 3 cymeradwy yn cyfrif am 21.0% o gyfanswm y cofrestriadau Safon UG ar gyfer haf 2021. Mae Tabl 11 yn dangos y newid yn nifer y cofrestriadau ar gyfer lefelau UG cam 3 cymeradwy rhwng haf 2021 a haf 2021.

Tabl 11: Cofnodion safon UG cam 3 cymeradwy fesul pwnc[1]

Pwnc	2021	2020	Canran y newid	
Dylunio a Thechnoleg	975	860	13.5%	↑
Mathemateg Bellach	450	640	-29.5%	↓
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	530	455	16.5%	↑
TGCh	630	635	-0.3%	↓
Y Gyfraith	1,095	990	10.8%	↑
Mathemateg	4,380	4,665	-6.1%	↓
Astudiaethau'r Cyfryngau	1,120	945	18.8%	↑
Cyfanswm	**9,185**	**9,185**	**0.0%**	←

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Arhosodd cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer lefelau UG cam 3 yn sefydlog yn 2021 o'i gymharu â 2020. Roedd newidiadau ar lefel y pwnc yn amrywio o ostyngiad o 29.5% mewn Mathemateg Bellach i gynnydd o 18.8% mewn Astudiaethau'r Cyfryngau. Mathemateg oedd yn cyfrif am 47.7% o gofrestriadau safon UG cam 3 cymeradwy, gostyngiad cyfrannol bach o'i gymharu â'r haf diwethaf.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

Yn dilyn ein hadolygiad o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dyfernir lefel UG gymeradwy newydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant am y tro cyntaf yn haf 2021. Cafwyd 885 o gofrestriadau ar gyfer y cymhwyster hwn yn haf 2021, yn bennaf gan ddysgwyr Blwyddyn 12.

[1] Mae TGCh wedi'i chynnwys fel cymhwyster diwygiedig yn y datganiad hwn yn unol â dosbarthiad y CGC

Cyfanswm cofnodion haf Safon UG fesul pwnc

Mae Ffigwr 13 yn cymharu cyfanswm cofrestriadau UG yr haf ar gyfer 2021 a 2020 fesul pwnc. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys lefelau UG etifeddol, lefelau UG diwygiedig yng Nghymru a lefelau UG diwygiedig yn Lloegr. Mae pynciau sydd heb unrhyw gofrestriadau yn 2020 a 2021 wedi'u heithrio.

Ffigwr 13: Cyfanswm y cofrestriadau Safon UG fesul pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Gwelodd 20 pwnc nifer uwch o gofrestriadau yn haf 2021, tra gwelodd 16 ostyngiad yn nifer y cofrestriadau o'i gymharu â'r llynedd.

Cofnodion Safon Uwch

Ffigwr 14: Cyfanswm cofrestriadau Safon Uwch fesul grŵp blwyddyn



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, 2018 ac yn ddiweddarach - Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Roedd 36,140 o gofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2021, 16.2% yn fwy nag yn haf 2020.
- Mae hyn yn gwrthdroi'r gostyngiadau blynyddol cyson mewn cofrestriadau Safon Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a dyma'r nifer uchaf o gofrestriadau Safon Uwch a welwyd yng Nghymru ers 2016, pan Adroddodd Ofqual 37,640 o gofrestriadau yng Nghymru.
- Roedd mwyafrif y cynnydd o ganlyniad i gofrestriadau gan ddysgwyr Blwyddyn 13, a gynyddodd 19.1% o'i gymharu â'r haf diwethaf, gan gyfrif am 88.7% o'r holl gofrestriadau Safon Uwch yr haf hwn.
- Cynyddodd ceisiadau gan ddysgwyr Blwyddyn 12 hefyd, ond gostyngodd nifer y cofrestriadau gan grwpiau blwyddyn eraill.
- Mae sawl ffactor a allai fod wedi cyfrannu tuag at y newidiadau hyn mewn cofrestriadau (gweler dylanwadau allanol). Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd o 1.9% yn nifer y cofrestriadau UG rhwng haf 2019 a haf 2020, a chynnydd yng nghanlyniadau cyffredinol Safon UG yn haf 2020, a allai fod wedi arwain at fwy o ddysgwyr yn symud ymlaen i Safon Uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Cofnodion Safon Uwch diwygiedig

Roedd 90.7% o gyfanswm cofrestriadau Safon Uwch haf 2021 ar gyfer cymwysterau cymeradwy. Darperir y cymwysterau hyn gan CBAC, a dyma'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Safon Uwch cymeradwy. Nid yw'r adran hon yn cynnwys cofnodion ar gyfer Safon Uwch a gafodd eu diwygio i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau).

Diwygio Cam 1

Mae cofrestriadau ar gyfer y pynciau hyn yn cyfrif am 57.8% o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2020. Mae Tabl 14 yn dangos y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd yng Nghymru rhwng haf 2021 a haf 2020.

Tabl 10: Cofnodion Safon Uwch cam 1 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc	2021	**2020**	**Canran y newid**
Celf a Dylunio	1,780	1,620	**9.6%** ↑
Bioleg	3,400	2,540	33.8% ↑
Busnes	1,365	1,185	15.3% ↑
Cemeg	2,590	2,035	27.2% ↑
Cyfrifiadureg	425	380	11.5% ↑
Economeg	470	460	2.2% ↑
Saesneg Iaith	280	255	9.8% ↑
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	725	625	16.0% ↑
Llenyddiaeth Saesneg	1,740	1,395	24.8% ↑
Hanes	1,915	1,995	-4.0% ↓
Ffiseg	1,915	1,515	26.2% ↑
Seicoleg	2,535	1,890	33.9% ↑
Cymdeithaseg	1,500	1,265	18.5% ↑
Cymraeg Iaith	255	260	-2.7% ↓
Cyfanswm	**20,885**	**17,425**	**19.9%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cynyddodd nifer y cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch cam 1 19.9% o'r haf diwethaf i'r haf hwn. Gwelodd mwyafrif y pynciau gynnydd yn nifer y cofrestriadau, gyda'r cynnydd cyfrannol mwyaf mewn Seicoleg (33.9%) a Bioleg (33.8%). Yr unig bynciau i weld gostyngiad yn nifer y cofrestriadau oedd Hanes a Chymraeg, sef gostyngiad o 4.0% a 2.7% yn y drefn honno.

Diwygio Cam 2

Roedd y cymwysterau Safon Uwch hyn yn cyfrif am 13.0% o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2021. Mae Tabl 11 yn dangos y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn rhwng haf 2021 a haf 2020.

Tabl 11: Cofnodion Safon Uwch cam 2 cymeradwy fesul pwnc,

Pwnc	2021	**2020**	**Canran y newid**
Drama a Theatr	560	495	13.2% ↑
Ffrangeg	290	265	9.4% ↑
Daearyddiaeth	1,305	1,110	17.4% ↑
Almaeneg	65	65	1.6% ↑
Cerddoriaeth	310	285	9.5% ↑
Addysg Gorfforol	750	565	32.3% ↑
Astudiaethau Crefyddol	980	1,090	-10.1% ↓
Sbaeneg	180	130	39.1% ↑
Cymraeg Ail Iaith	275	210	31.0% ↑
Cyfanswm	**4,715**	**4,215**	**11.9%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Cynyddodd cyfanswm y cofrestriadau yn y cymwysterau Safon Uwch hyn 11.9% o'r haf diwethaf i'r haf hwn. Cynyddodd nifer y cofrestriadau Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) 16.6%. Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf yn Sbaeneg, a gynyddodd 39.1%. Gwelodd pob pwnc arall gynnydd yn nifer y cofrestriadau, ar wahân i Astudiaethau Crefyddol, a welodd gostyngiad o 10.1%.

Diwygio Cam 3

Dyfernir y lefelau Safon Uwch hyn am y trydydd tro yn haf 2020. Yr eithriad yw Mathemateg, a ddyfarnwyd yn gyntaf yn 2018, ac yn bennaf i bobl ifanc 17 oed. Roedd hyn er mwyn i ddysgwyr allu sefyll Mathemateg UG a Safon Uwch yn eu blwyddyn gyntaf o astudio (2018) ac yna symud ymlaen i Fathemateg Bellach UG a Safon Uwch yn eu hail flwyddyn (2019).

Roedd y cymwysterau Safon Uwch hyn yn cyfrif am 19.8% o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2021. Mae Tabl 12 yn dangos y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn rhwng haf 2021 a haf 2020.

Tabl 12: Cofrestriadau Safon Uwch cam 3 cymeradwy fesul pwnc

Pwnc Safon Uwch	2021	**2020**	**Canran y newid**
Dylunio a Thechnoleg	735	545	35.3% ↑
Mathemateg Bellach	620	525	17.9% ↑
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	380	300	26.2% ↑
Y Gyfraith	735	595	23.0% ↑
Mathemateg	3,915	3,395	15.3% ↑
Astudiaethau'r Cyfryngau	780	730	6.8% ↑
Cyfanswm	**7,165**	**6,095**	**17.6%** ↑

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Nifer y cofrestriadau yn cynyddu 17.6% o 5,950 yn haf 2019 i 6,095 yn haf 2020. Bu cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer pob pwnc yr haf hwn o'i gymharu â'r llynedd. Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn Dylunio a Thechnoleg (35.3%) a Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (26.2%). Mathemateg yw 54.7% o gofrestriadau haf 2021, i lawr ychydig o 55.7% yn haf 2020.

Cyfanswm cofnodion haf Safon Uwch fesul pwnc

Mae Ffigwr 15 yn cymharu cyfanswm cofrestriadau Safon Uwch yr haf ar gyfer 2021 a 2020 fesul pwnc. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys Safon Uwch etifeddol, Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru a Safon Uwch diwygiedig yn Lloegr. Mae pynciau nad oes unrhyw gofrestriadau yn y ddwy flynedd wedi'u heithrio.

Ffigwr 15: Cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch fesul pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

Gwelodd mwyafrif y pynciau Safon Uwch - cyfanswm o 30 - gynnydd yn nifer y cofrestriadau yn haf 2020 o'i gymharu â'r llynedd. Gostyngodd nifer y cofrestriadau mewn chwe maes pwnc.

Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru

Ffigwr 16: Cofrestriadau Tystysgrif Her Sgiliau dros amser



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau fesul casgliad Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru

- Cynyddodd cyfanswm cofrestriadau Tystysgrif Her Sgiliau 1.6% yn haf 2021 o'i gymharu â haf 2020.
- Cafwyd 26,500 o gofrestriadau am Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (CA4) yn haf 2021, gostyngiad o 3.2% o'i gymharu â'r haf diwethaf. Mae'r rhain yn cyfrif am ddwy ran o dair o holl gofrestriadau Tystysgrif Her Sgiliau yn haf 2021.
- Gwelodd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch 13,240 o gofrestriadau, cynnydd o 12.8% o'i gymharu â'r haf diwethaf.
- Ar 31 Awst 2020, mae Tystysgrifau Her Sgiliau Sylfaen (ÔI-16) a Chenedlaethol (ÔI-16) wedi darfod ac ni fyddant bellach yn cael eu dyfarnu. Roedd holl gofrestriadau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn 2021 naill ai ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/ Sylfaen neu Uwch.

Nodiadau Cefndir

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, ac y Dystysgrif Her Sgiliau wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y cofrestriadau ar gyfer pob cymhwyster sydd ar gael yn haf 2021. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mae'r cofrestriadau, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu nifer y cofrestriadau wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc ac oedran y myfyrwyr yng Nghymru yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn ysgol (blwyddyn 11 yw'r flwyddyn academaidd pan fydd myfyrwyr yn troi'n 16 oed).

Yn flaenorol, roedd y datganiad hwn yn cynnwys data ar dystysgrifau Lefel 1/Lefel 2. Roedd y rhan fwyaf o'r data hwn ar gyfer y tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 a gynigiwyd gan Cambridge International. Nid yw'r cymwysterau hyn bellach yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru, felly nid ydym bellach yn cynnwys tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 yn y datganiad hwn. Mae data sy'n ymwneud â thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 sy'n dal i gael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru i'w gweld yn ein hystadegau Chwarterol ar Gymwysterau Galwedigaethol.

Cyfyngiadau'r data

Mae gwallau posibl yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a geir yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;

- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi'u casglu ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 29 Ebrill 2021 ar gyfer data cyfres haf 2021 yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, gall ysgolion barhau i wneud cofrestriadau hwyr hyd at ddyddiad yr arholiad. O ganlyniad, mae teitl y datganiad hwn yn cyfeirio at gofrestriadau dros dro.

Diwygio cymwysterau

I gyd-fynd â'r diwygiadau yng Nghymru, cafodd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd eu cyflwyno yn Lloegr hefyd. Mewn rhai pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, mae cymwysterau wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr, ond nid Cymru. Mewn achosion o'r fath, gall y cymwysterau sydd wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr gael eu cynnig fel rhan o gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Mewn pynciau lle mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u diwygio ar gyfer Cymru, nid yw cymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr ar gael i'w defnyddio yng Nghymru ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus. Mae dau brif senario lle y gallai dysgwyr yng Nghymru astudio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr:

- Mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir mewn pynciau nad ydynt wedi'u diwygio'n benodol ar gyfer Cymru yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus.
- Lle nad yw'r ddarpariaeth wedi'i hariannu'n gyhoeddus, fel sy'n digwydd mewn ysgolion annibynnol, gall canolfannau ddewis cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr, er bod cymhwyster diwygiedig cyfatebol ar gyfer Cymru.

Mesurau perfformiad

Fis Hydref 2017 cyhoeddwyd newidiadau ar gyfer y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo mesurau perfformiad. O haf 2019, dim ond cofrestriad cyntaf disgybl ar gyfer arholiad TGAU fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion. Cyn hynny, cyfrifwyd y radd orau a gyrhaeddwyd. Gostyngwyd nifer y slotiau wrth gefn ar gyfer TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth o bump i dri, gan adael chwe slot heb eu cadw ar

gyfer cymwysterau eraill sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd mesur perfformiad yng Nghymru ei atal yn 2020 a 2021 oherwydd y pandemig COVID-19.

Cymariaethau

O 2017/18, cyflwynodd cyrff dyfarnu ddata ar gymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch ac y Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, na'r Dystysgrif Her Sgiliau a astudir y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, ni fydd data ar nifer y cofrestriadau fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data cofrestriadau i Cymwysterau Cymru ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig sydd wedi'u dosbarthu fel cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, neu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer cofrestriadau eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, felly rydym yn disgwyl meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser.

Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o batrymau cofrestriadau.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Data dros dro ar Gofrestriadau TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 Tachwedd ar gyfer Cymru
- Y datganiad 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion' blynyddol, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- Cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yn Lloegr.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar ein gwefan ni i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau i ddod ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar ein gwefan ni. Mae cofrestr QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Mai 2022 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org

(h) (2021) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonell wreiddiol.